Cenn@d

HYDREF 9 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 189

# 7 Hydref – blwyddyn o ryfela yn Gaza

Bydd gan rywrai gysylltiad penodol â phob dyddiad ar y calendr, ond bydd gan 7 Hydref 2023 ei gysylltiadau i ganran sylweddol o'r ddynoliaeth. Bydd hynny oherwydd yr hyn a wnaeth Hamas wrth ladd rhai a chipio eraill mewn ymosodiad ar ddigwyddiad cerddorol diniwed.

Bellach, aeth blwyddyn heibio ac mae poblogaeth Gaza wedi symud droeon, gan adael ton ar ôl ton o feirwon yn dilyn y bomio arswydus sydd wedi digwydd. Clywsom gri galar y Palestiniaid, beirniadaeth gynyddol o gyfeiriad gwledydd y Gorllewin. Ond bu'r prif weinidog Iddewig, Benjamin Netanyahu, yn gyson styfnig, gan wrthod unrhyw sôn am gadoediad. Buom yn lobïo o blaid heddwch, gyda chynghrair y Cenhedloedd Unedig yn cydlynu trafodaethau i gynnig cynlluniau er mwyn dod â'r rhyfel i ben.

Condemniodd mwyafrif sylweddol o lywodraethau'r byd yr ymosodiad gwreiddiol, a chytuno bod gan Israel hawl i'w hamddiffyn ei hun. Cyfrannodd nifer o wledydd y Gorllewin arian i estyn cymorth i'r Palestiniaid yn Gaza. Bu'r Cenhedloedd Unedig hefyd yn ymdrechu i geisio cael deialog rhwng yr Iddewon a'r Palestiniaid er mwyn sicrhau cadoediad, neu o leiaf gyfnod heb ymladd er mwyn darparu cymorth meddygol, dŵr glân a bwyd i gynorthwyo'r ffoaduriaid o fewn Gaza.

Erbyn hyn, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu'n ddirfawr. Bu'r ymosodiadau ar ganolfannau Hezbollah a laddodd rai o'u harweinwyr yn heriol, ac yna ymosodiadau Iran yr un mor sydyn. Mae'r byd yn holi beth yw pen draw yr erchyllterau hyn. Nid oes ateb amlwg. Pan ddylai polisi'r Unol Daleithiau fod yn gadarn, yr hyn a glywsom oedd i Donald Trump ymosod ar Kamala Harris a'r Arlywydd Biden, gan ddweud eu bod yn caniatáu dechrau'r Trydydd Rhyfel Byd.



Llun: Cymorth Cristnogol

Doethach o lawer oedd galwad Antonio Guterres, Ysgrifennydd y Cenhedloedd Unedig, am atal yr ymosodiadau ac ymddiried trefniadau cadoediad iddo ef a'i staff.

Fel ym mhob sefyllfa o ryfel, aeth iaith pawb i sôn am ddialedd eithafol a'r cysyniad o 'dalu yn ôl', gyda'r naill ochr yn beio'r llall. Mae rhyfel yn ei natur yn ddifaol; mae'n lladd pobl, yn dinistrio adeiladau, yn gwenwyno'r amgylchedd ac yn chwalu anian cymdeithas. Mae cost rhyfel ym mhob ystyr yn anfesuradwy. Ac eto, pan ddaw anghydfod o fewn gwladwriaeth neu ar draws ffiniau gwledydd, bydd yr ysgyrnygu dannedd yn troi'n ymosodiad milwrol. Mae Israel yn hawlio'u bod yn amddiffyn eu tir, tra mae arweinwyr Gaza a'r Llain Orllewinol yn tystio bod Israel yn manteisio ar bob cyfle i 'ddwyn' eu tiroedd ac yn cyrchu at y nod o hawlio'r tir sydd ar hyn o bryd yn gartref i'r Palestiniaid.

Hedfanodd dwy flynedd a hanner ers ymosodiad gwreiddiol Rwsia, ar 24 Chwefror 2022, ar diroedd Wcráin. Prin bod sicrwydd faint o filwyr a laddwyd ac a niweidiwyd yn ddifrifol. Dyfalir bod rhwng 21,000 a 25,000 o filwyr Rwsia wedi eu lladd neu eu niweidio'n wael, a bod 35,000 o filwyr Wcráin wedi dioddef. Nid oes sicrwydd na chytundeb am yr ystadegau hyn; ac nid ystadegau yw marw pobl. Mae pob un farwolaeth yn alar i deuluoedd a chymunedau. Peidiwn ag anghofio bod Rwsia ac Wcráin yn wledydd Cristnogol, a llawer o'u plith yn perthyn i ryw adran o'r eglwys Gatholig. Yn y Dwyrain Canol yn gyffredinol ceir nifer o gyrff Cristnogol, ac yn Iran a Lebanon ceir rhyddid cydwybod fel rhan o gyfraith y wlad. Ceir clwstwr o eglwysi yn Beirut, fel sydd ym mhrifddinas Iran. Mae Eglwys Gadeiriol Sant Sarkis yn perthyn i'r Eglwys Apostolaidd, ond beth bynnag yr enwad, bydd teulu'r ffydd ledled y byd yn awyddus i eiriol dros holl Gristnogion y Dwyrain Canol ar hyn o bryd.

Beth felly sydd gan eglwysi Cymru i'w wneud? Onid gweddïo, cefnogi'r mudiadau dyngarol, lobïo'r llywodraethau yng Nghaerdydd a San Steffan, a cysylltu â'r Cenhedloedd Unedig i'w hannog i godi llais yn uwch. Mae Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS) eisoes wedi sefydlu cronfa apêl i gefnogi pobl Lebanon, ac mae'n siŵr y byddwn yn derbyn ceisiadau tebyg o bob cyfeiriad i ddangos cefnogaeth ymarferol.

Ar sawl gwedd, mae llais America yn wannach gan fod yr etholiad arlywyddol ar y gorwel. Bu llais Ayatollah Sayyid Ali Khamenei, arweinydd Mwslemiaeth yn Iran, yn annog mwy o ddialedd rhyfelgar, ac ofnwn y bydd mwy o ddinistrio a lladd cyn y daw'r gyflafan hon i ben. Gweddïwn y bydd lleisiau gwleidyddol a chrefyddol y byd yn darganfod ffyrdd o droi'r gwaywffyn yn bladuriau, a hynny ar fyrder.

*Denzil John*

Cylch Ti a Fi Traed Bach, Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon
**Tudalen 2**

Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
**Tudalen 4**

Sasiwn groesawgar yn Eglwys y Drindod, Llundain
**Tudalen 7**

# Cylch Ti a Fi Traed Bach, Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon

Ar 19eg Medi cynhaliwyd sesiwn arbennig i lansio Cylch Ti a Fi Traed Bach, Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon. Roedd Dewin (masgot y Mudiad Meithrin) a Magi Ann (masgot y Fenter Iaith) yno i ymuno yn yr hwyl.



Ymdrech newydd i gefnogi'r eglwys a hybu addysg Gymraeg yn y fro yw'r Cylch i blant 0 i 4 oed sydd erbyn hyn yn cael ei gynnal unwaith yr wythnos yn y capel ar foreau Iau, rhwng 9.30 ac 11 o'r gloch, yn ystod tymor yr ysgol. Catrin Hampton fydd yr arweinydd maes o law, ond ar hyn o bryd mae ar gyfnod mamolaeth. Mrs Eirian Jones a minnau fydd arweinyddion y Cylch yn ystod tymhorau'r hydref a'r gwanwyn.

Ychydig flynyddoedd yn ôl sefydlwyd grŵp tebyg, sef Sêr Bach, yng Nghapel Bethesda, yr Wyddgrug, gan Catrin Hampton, galluogwraig genhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dymuniad Catrin, y Parch. Huw Powell-Davies a phedair aelod o'r capel (Eirian Jones, Heulwen Closs Sharp, Mali Closs Sharp a minnau) oedd sefydlu grŵp tebyg yn Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon. Er mwyn sicrhau llwyddiant y fenter sylweddolwyd bod angen cefnogaeth mudiadau eraill.



Mawr oedd ein gwerthfawrogiad pan gytunodd swyddogion y Mudiad Meithrin ei sefydlu ar y cyd ag Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon. Rydym hefyd yn ffodus fod Elaine Griffiths, Cymraeg i Blant, yn barod iawn i ddarparu 'ioga i fabis' ym mhob sesiwn. Yn ogystal â hyn trefnwyd i staff y Fenter Iaith wneud sesiynau 'Symud gyda Tedi' gyda'r plant.

Buom wrthi drwy'r haf yn trafod ac yn cynllunio: yn sefydlu grŵp WhatsApp; yn sicrhau fod ein gwaith papur yn ei le; yn hysbysebu; yn gwneud ceisiadau am grantiau; yn gofalu fod gennym gyfrif banc ar lein yn ogystal â phrynu teganau, adnoddau a dodrefn – a hynny'n cynnwys trip i Ikea!

Rhaid cyfaddef fod y syniad o allu sefydlu grŵp i blant 0–4 oed fel mynydd amhosib ei ddringo ar y dechrau. Ond gyda'r gefnogaeth a gawsom rydym yn obeithiol y byddwn yn gallu creu'r 'cam cyntaf' i deuluoedd gael cyswllt â'r eglwys a chael croeso cynnes. Bydd yn fan lle gallwn rannu lletygarwch, a hefyd yna adeiladu'r camau nesaf ar gyfer cyswllt â'r eglwys yn ehangach.


*Mena Evans*

# Darlithiau Cymdeithas Waldo 2010–2024

Dyma gasgliad o ddarlithiau ac anerchiadau a drefnwyd gan Gymdeithas Waldo Williams rhwng 2010 a 2024. Ceir amrywiaeth o gyfraniadau, gan gynnwys dadansoddiadau o rai o gerddi'r bardd pwysig hwn ynghyd â chipolwg ar ei gymeriad drwy hanesion ac atgofion rhai a oedd yn ei adnabod.

Mae'n gyfrol ddifyr a gwerthfawr i unrhyw un a fyn ddeall mwy am Waldo Williams a'i waith, ac yn gyfrol allweddol o ran dwyn sylw gwlad at un o ffigurau mwyaf ein cenedl ni. Cyfrol raenus, hardd a chyfoethog o feddyliau a dadansoddiadau treiddgar o farddoniaeth, bywyd a bro Waldo.

*Darlithiau Cymdeithas Waldo, 2010–2024*
£30.00 (Cludiant am ddim)
Siec yn daladwy: Y Faner Newydd
Anfonwch eich archeb at:
Alun Ifans, Erw Grug, Maenclochog, Sir Benfro, SA66 7LB




# Tro i'r Swistir III

Trwy gydol y cyfnod cyn hynny cynhelid mynych gyfarfodydd rhwng cyngor y ddinas a swyddogion Esgob Constans, ond erbyn 1525 roedd yr hollt derfynol rhwng y ddinas a'r babaeth wedi digwydd. Oni bai am gefnogaeth yr awdurdodau sifil, ni allai Zwingli fod wedi gwneud dim. Fel ymhobman arall, gweithred wladwriaethol lawn cymaint â symudiad crefyddol oedd y Diwygiad Protestannaidd yn Zurich. Fodd bynnag, roedd y berw wedi esgor ar syniadaeth newydd, chwyldroadol, ac o du ei ddilynwyr mwyaf radical y cododd yr her wirioneddol gyntaf i'w raglen waith.

Mor gynnar ag 1523, roedd rhai lleisiau wedi codi'r cwestiwn: os y Testament Newydd oedd patrwm bywyd y Cristion, sut gellid cyfiawnhau arferion megis bedydd plant ar y naill law a chodi arfau er mwyn mynd i ryfel ar y llall? Cyn hir roedd grŵp o radicaliaid wedi ymffurfio o dan arweiniad Conrad Grebel, un o glerigwyr y ddinas, a'i gydymaith, Felix Manz; roeddent yn prysur golli amynedd gydag amharodrwydd Zwingli i fynd â'r diwygio ymhellach. Iddyn nhw, cymdeithas o gredinwyr ymrwymedig oedd yr eglwys, yn gyfyngedig i'r rhai oedd wedi profi tröedigaeth tra mynnai Zwingli fod yr eglwys gyfled â'r gymdeithas sifig. Yn dilyn dadl gyhoeddus ar y mater, ymwrthododd y radicaliaid â'r bedydd plant a oedd yn orfodol yn ôl y gyfraith, ac ar 21 Ionawr 1525 taenellodd un o'r cwmni, Georg Blaurock, y lleill ar gyffes o ffydd, tra ymwahanodd y grŵp oddi wrth yr eglwys sefydledig. Daethpwyd â nhw gerbron yr awdurdodau, ac er gwaethaf amddiffyniad cwrtais Manz, dyfarnwyd, oni bai iddynt edifarhau, y dylid eu dienyddio. Canlyniad y penderfyniad didostur hwn yn Ionawr 1527 oedd i Felix Manz gael ei foddi yn afon Limmat, merthyr cyntaf mudiad yr Ailfedyddwyr. Er i'r lleill ffoi o'r ddinas, boddwyd Balthasar Hubmaier a'i wraig yn afon Danube yn 1528 a llosgwyd Blaurock wrth y stanc yn Tyrol yn 1529.

Erbyn diwedd y degawd roedd dinasoedd S. Gallen, Basel a Bern wedi dyfarnu o blaid y Diwygiad a thorri eu cyswllt â'r babaeth tra mynnai pump o'r cantonau eraill lynu wrth yr Hen



Cynhadledd Marburg, Medi 1529 (Parth cyhoeddus, via Wikimedia Commons)

Ffydd. Ac yntau bellach wedi ymbellhau oddi wrth egwyddorion pasiffistaidd ei hen fentor Erasmus, mynnai Zwingli y dylai'r dinasoedd diwygiedig gynghreirio yn erbyn y taleithiau Catholig er mwyn hyrwyddo'r Diwygiad a chodi arfau, pe bai rhaid.

Yn y cyfamser cafwyd rhwyg poenus rhwng Zwingli a Luther ar fater yr Ewcharist. Roedd diwygiwr Wittenberg wedi arswydo at ddisgrifiad Zwingli o Swper yr Arglwydd fel ordinhad syml er cof am aberth Calfaria tra mynnai yntau fod y Cymun yn arwyddo presenoldeb real corff a gwaed Crist. Nid trosiadol oedd y geiriau 'hwn yw fy nghorff a dorrwyd drosoch' ond ymadrodd a fynegai ffaith. Ac yntau'n dyheu am undod, cynullodd Philip, iarll Hesse, arweinydd politicaidd mwyaf grymus y taleithiau Protestannaidd, gynhadledd ym Marburg ym Medi 1529 ac ymbil ar i Luther a Zwingli ddod o hyd i dir cyffredin ar fater yr Ewcharist. Glynodd Luther yn ystyfnig wrth ei farn tra gwrthodai Zwingli gyfaddawdu dim. Canlyniad hyn oedd i'r dinasoedd a oedd yn arddel y Diwygiad ymrannu ac i Brotestaniaeth hollti'n ddwy. Os trasiedi oedd hyn yng ngolwg llawer, wrth i Zwingli ddychwelyd i Zurich, byddai trasiedi waeth yn ei aros.

(i'w barhau)

*D. Densil Morgan*
*Llanbedr Pont Steffan*

# Cynllun Pensiwn Eglwys Bresbyteraidd Cymru ("y Cynllun")

**Hysbysiad i gredydwyr a buddiolwyr o dan Adran 27 o Ddeddf Ymddiriedolwyr 1925**

DS Cyhoeddwyd yr hysbysiad hwn gyntaf ar 19eg Medi 2024, ac felly dylid darllen unrhyw amrediadau amser a nodir isod i gyd-fynd â'r dyddiad cyhoeddi gwreiddiol hwn.

Hysbysir drwy hyn, yn unol ag Adran 27 o'r Ddeddf Ymddiriedolwyr 1925, fod Cynllun Pensiwn Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn y broses o gael ei ddirwyn i ben. Mae Ymddiriedolwyr y Cynllun wedi cyfathrebu â pob un o'r aelodau a'r buddiolwyr sy'n hysbys iddynt, ac mae eu diddordeb yn cael ei ddiogelu. Mae angen i unrhyw berson sy'n credu efallai bod ganddynt hawlogaeth, diddordeb, hawliad yn erbyn, neu ddiddordeb buddiolwr yn asedau'r cynllun i anfon manylion eu hawliad neu eu diddordeb yn ysgrifenedig i:

Barnett Waddingham LLP
St James House
St James Square
Cheltenham
GL50 3PR

Neu drwy e-bost i:
WPCTrustee@Barnett-Waddingham.co.uk

Dylai personau sydd am honni hawliad gynnwys eu henw llawn, cyfeiriad cyfredol, rhif Yswiriant Cenedlaethol, manylion y buddion y maent yn eu hawlio a chopïau o unrhyw dystiolaeth sy'n cadarnhau eu hawlogaeth.

Rhaid i unrhyw hawliad gael ei wneud o fewn 2 fis i ddyddiad yr hysbysiad hwn. Wedi'r dyddiad hwnnw fe fydd yr Ymddiriedolwyr yn mynd rhagddynt i rannu'r asedau sy'n weddill yn y Cynllun rhwng y rhai sydd â hawlogaeth iddynt, gan gymryd i ystyriaeth yr hawliadau y maent wedi eu hysbysu amdanynt yn unig. Ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn atebol i unrhyw berson arall lle nad ydynt wedi derbyn hysbysiad o'u hawliad. Nid oes angen i unrhyw unigolyn sydd eisoes wedi derbyn gohebiaeth am y mater hwn ar ran yr Ymddiriedolwyr ymateb gan fod manylion eu hawlogaeth eisoes gan yr Ymddiriedolwyr.

Cyhoeddwyd ar ran Ymddiriedolwyr y Cynllun Medi 2024

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt

**Yn enedigol o Malta, mae Rosa Hunt ar hyn o bryd yn gyd-bennaeth ar Goleg y Bedyddwyr, Caerdydd, ac yn weinidog ar gapel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd. O ddechrau'r flwyddyn nesaf, bydd yn gofalu am gapel y Tabernacl yn llawn amser ond yn parhau fel tiwtor allanol yn y coleg. Croesawn Rosa yn gynnes i'r tîm o golofnwyr rheolaidd sydd gan *Cenn@d*.**





## Niwroamrywiaeth a'r Eglwys

Yn ddiweddar rydyn ni wedi bod yn clywed llawer am niwroamrywiaeth. Mae gwefan y llywodraeth *bydtermcymru* yn diffinio 'niwroamrywiaeth' fel "yr holl sefyllfaoedd niwrolegol a geir yn y rhywogaeth ddynol, gan gynnwys cyflyrau fel awtistiaeth yn ogystal â'r rheini sy'n niwronodweddiadol". Ac wedyn, mae'n ychwanegu nodyn: "Defnyddir y term hwn fel rhan o gyfundrefn feddwl sy'n ystyried bod cyflyrau niwrolegol, fel awtistiaeth, yn rhan o amrywiaeth arferol y genom dynol."

Mae'r byd wedi newid, on'd ydy e, ac mae'r ffordd y mae pobl yn disgrifio eu hunain wedi newid hefyd. Yn y gorffennol roedden ni'n defnyddio geiriau fel 'gwrthgymdeithasol' neu 'person anodd' neu 'lletchwith' – ond ers y nawdegau mae mwy o ddealltwriaeth gennym o bobl sy'n gweld y byd yn wahanol. Yn aml iawn, mae'r eglwys yn ddrwgdybus o bethau newydd – a gallai hyn fod yn beth doeth. Mae rhaid i ni fod yn sicr bod ein ffordd o weld y byd yn gyson â beth yr ydym wedi ei ddysgu am Dduw trwy'r Beibl. Yn yr erthygl hon, dwi'n honni bod sylfaen Feiblaidd gadarn i ni fel eglwysi ddysgu mwy am niwroamrywiaeth, a dysgu i ddeall, parchu a chroesawu pobl niwrowahanol i'n heglwysi ni.

Os ydych chi'n meddwl nad ydych chi'n nabod pobl niwrowahanol, efallai y byddwch yn synnu dysgu bod un ymhob saith person yn niwrowahanol. Mewn cynulleidfa gymedrol o 35 person felly, bydd tua 30 yn prosesu gwybodaeth ac yn ymateb mewn ffyrdd y mae ein cymdeithas ni yn ei ddisgwyl (niwronodweddiadol) – ond bydd tua phum person ag ymennydd sy'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n hollol bosibl bod y gweinidog yn un o'r pump yna! Ni fydd y mwyafrif ohonynt wedi cael unrhyw ddiagnosis – maen nhw jyst wedi dysgu ymdopi.

Y syniad sylfaenol tu ôl i'r gair niwroamrywiaeth yw'r syniad o *amrywiaeth.* Dydy amrywiaeth ddim yn syniad newydd! Yn Genesis 1, rydyn ni'n gweld Duw sy'n creu byd llawn amrywiaeth, ac yn Genesis 11, pan fydd pobl yn ceisio cael gwared o amrywiaeth gan siarad dim ond un iaith, dydy Duw ddim yn hapus o gwbl! Mae'n dod i lawr ac yn adfer y sefyllfa wreiddiol gyda sawl llwyth a sawl iaith. Ac yn y Testament Newydd, rydyn ni'n darllen (1 Corinthiaid 12:4–7): "Y mae amrywiaeth doniau, ond yr un Ysbryd sy'n eu rhoi; ac y mae amrywiaeth gweinidogaethau, ond yr un Arglwydd sy'n eu rhoi; ac y mae amrywiaeth gweithrediadau, ond yr un Duw sydd yn gweithredu pob peth ym mhawb." Duw amrywiaeth yw ein Duw ni, a dyna beth sy'n gwneud ei greadigaeth mor hardd a mor ddiddorol.

Mae pobl niwrowahanol yn wahanol. Dydyn nhw ddim yn ddrwg; dydyn nhw ddim yn anghwrtais neu'n lletchwith. Maen nhw jyst yn wahanol. Ac maen nhw wedi cael eu creu yn y ffordd yna gan Dduw. Mae dwy ochr i bob rhodd – mae'n gallu bod yn fendith neu'n felltith. Mae Greta Thunberg, sy'n adnabyddus ledled y byd am ei hymgyrchoedd amgylcheddol cryf, yn dioddef o syndrom Asperger, cyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cymdeithasu ac yn cyfathrebu. Mae hi wedi disgrifio ei diagnosis fel 'superpower'. Mae Daniel Radcliffe, sydd wedi swyno'r byd fel Harry Potter, yn byw gydag OCD a dyspracsia. Ac mae David Beckham hefyd yn byw gydag OCD. Ac wedyn Alan Turing, Mozart, Martin Luther, Albert Einstein, R. S. Thomas … Mae'n amhosib gwahanu eu hathrylith oddi wrth eu brwydrau i fyw bywyd bob dydd.



Ac yn wir, mae'n gallu bod yn anodd iawn i bobl niwrowahanol ffitio i mewn. Os ydyn ni'n edrych ar y rhestr uchod o bobl enwog niwrowahanol, rydyn ni'n gweld hefyd bobl sydd wedi brwydro ag iselder oherwydd roedd hi'n anodd iddyn nhw gael eu deall a'u derbyn gan eraill. Dylai'r eglwys fod yn fan lle mae pawb yn teimlo'n gartrefol, lle rydyn ni'n estyn i eraill yr un croeso diamod ag y gwnaeth Duw ei ymestyn i ni.

Felly, sut i wneud ein heglwysi ni'n fwy croesawgar i bobl niwrowahanol? Wel, y broblem yma yw hon: mae pobl niwrowahanol yn wahanol – nid jyst i chi a mi, ond i'w gilydd hefyd! Dydyn nhw ddim i gyd yr un fath. Bydd rhai sy'n hoffi eistedd ar wahân oherwydd nad ydyn nhw eisiau cael sgwrs gyda neb, ond bydd eraill sy'n eistedd ar wahân oherwydd nad ydyn nhw'n deall sut i gael y cariad a'r derbyniad y maen nhw'n ysu amdanynt. Bydd rhai sy'n rhoi'r argraff eu bod yn anghwrtais oherwydd eu bod nhw'n torri ar draws sgwrs neu'n anfon negeseuon lu. Bydd eraill sy'n rhoi'r argraff eu bod yn anghwrtais oherwydd eu bod nhw'n gwrthod bod yn rhan o sgwrs, neu'n mynnu bod popeth mewn trefn sy'n eu siwtio nhw, neu'n anwybyddu negeseuon yn llwyr.

Felly, oes modd cael rheol syml i helpu eglwysi i groesawu pobl niwrowahanol? Oes, fel mae'n digwydd, rheol hynafol iawn: 'carwch eich gilydd fel y cerais i chwi'. Gwnawn ymdrech i ddod i nabod pawb yn ein cymuned eglwysig ni, a dysgu i'w caru fel maen nhw, gyda'r un cariad diamod ag y mae Duw wedi'i ddangos i ni.

# Dathlu daucanmlwyddiant Capel Penuel, Cemaes, Penfro

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ar 1 Medi i ddathlu daucanmlwyddiant sefydlu Capel Penuel, Cemaes, sir Benfro. Cafwyd te prynhawn wedi ei baratoi a'i weini gan Mandy Phillips cyn cynnal oedfa yn yr hwyr.

Cafwyd oedfa ddiddorol dan arweinyddiaeth y Parchedigion Eirian Wyn Lewis a Sian Elin Thomas. Cyflwynodd Hedd Ladd Lewis ei ymchwil graenus am hanes sefydlu'r capel yn ogystal â rhai o gymeriadau a diwylliant y fro dros y ddau can mlynedd diwethaf.

Cyflwynodd y plant – Morgan, Mererid, Saran, Brynmor, Peder ac Arthur – ddarn o waith gan y diweddar Barchedig T. R. Jones. Yn y lluniau gwelir y rhai a gymerodd ran yn yr oedfa ynghyd â'r diaconiaid, y trysoryddion a'r organyddes. Diolchir iddynt am eu gwaith wrth gynnal yr achos.





O'r chwith i'r dde: Hedd Ladd Lewis, Denzil Thomas, Y Parch. Sian Elin Thomas, Eurfron Lloyd, Yvonne Jenkins, Euros Jenkins a'r Parch. Eirian Wyn Lewis

## Cydymdeimlad

Tristwch yw nodi y bu farw gweinidog hynaf Undeb Bedyddwyr Cymru, y Parchg Denis Young, ddydd Gwener, 4 Hydref 2024, yn Aberystwyth ac yntau yn gynharach eleni wedi dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed.

Diolchwn am ei wasanaeth ffyddlon a chyfoethog i'r Arglwydd gydol ei oes ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Arvonia, ynghyd ag Einir a Llinos a'u teuluoedd.

*Judith Morris*
*Ysgrifennydd Cyffredinol*

Cofiwch fod rhaglenni Cristnogol Cymraeg newydd yn ymddangos ar sianel Teledu Cristnogol Cymru yn wythnosol. Mae yna filoedd o eitemau Cymraeg ar gael i'w gwylio ar alw unrhyw bryd. Ewch i www.cristnogaeth.cymru i wylio.




**Dydd Gweddi'r Byd**
**Is-bwyllor Cymraeg (Rhyngenwadol)**

Cynhelir

**Cynhadledd**

yng Nghapel Bryngwenith
Henllan, Castellnewydd Emlyn

**Dydd Mercher 13 Tachwedd**
**am 11.00**
**i baratoi ar gyfer**
**Dydd Gweddi 2025**

Cyswllt: Parch. Carys Ann Rhydlewis

**Dydd Gweddi'r Byd**
**Is-bwyllor Cymraeg (Rhyngenwadol)**

Cynhelir

**Cynhadledd**

yng Nghapel y Rhos
Bae Colwyn

**Dydd Mercher 20 Tachwedd**
**10.00 - 1.00**
**i baratoi ar gyfer**
**Dydd Gweddi 2025**

Cyswllt: Mrs Miriam Lewis, Hen Golwyn

## Seiat Zoom

Cristnogaeth 21

Croeso i bawb

Nos Lun
Hydref 21ain
7- 7:45 yh


Dewch i drafod gyda'n gilydd...

Ydy Duw...
yno?
yn hidio?
yn fy nghofio?

Cysylltwch â cristnogaeth21@gmail.com i dderbyn y ddolen zoom

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones
(Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 5. 'Ruth, y wraig weddw yn cyfarfod Boas' (Ruth 2:1–16)

Cyn dechrau deall yr adran hon, rhaid eto ein hatgoffa ein hunain am gyfnod Llyfr Ruth, cyfnod y Barnwyr yn Israel (1380 a 1050 CC). Roedd yn gyfnod ansicr ac anfoesol, gydag amgylchiadau'r gwan bob amser yn fregus.

Ond eto, roedd Duw yn ei Air wedi gadael arweiniad clir ynglŷn â sut roedd y gymdeithas i ofalu am y weddw a'r amddifad: "Pan fyddi'n casglu'r cynhaeaf, rhaid i ti beidio casglu'r cwbl o bob cornel o'r cae. A phaid mynd drwy'r cae yn casglu popeth sydd wedi'i adael ar ôl ... Rhaid i ti adael peth i bobl dlawd, ac i'r rhai sydd ddim yn bobl Israel. Fi ydy'r Arglwydd dy Dduw di" (Lefiticus 19: 9–10; Beibl.net). Roedd Duw wedi gosod cyfarwyddyd i ddarparu ar gyfer y tlawd a'r estron, cyfarwyddyd i atgoffa'r medelwyr (gweithwyr y cynhaeaf) i beidio â bod yn farus ond gadael bwyd ar ôl yn y caeau fel bod cynhaliaeth ar gyfer yr anghenus yn ogystal.

Wedi cyrraedd Bethlehem, mae Ruth yn dweud wrth Naomi ei bod am fynd i chwilio am fwyd yn y caeau, a rhoddodd Naomi hithau ei bendith ar hynny. Mae Ruth wedyn yn digwydd casglu grawn mewn cae oedd yn perthyn i berthynas i Mahlon, ei gŵr, sef dyn 'cefnog' (adn. 1) o'r enw Boas. Yn llythrennol, mae'r enw Boas yn golygu 'cyflymder', ac yn adnod 1 mae'n cael ei ddisgrifio fel dyn 'cefnog'. Y gair yn yr Hebraeg yma ydy 'chayil', sy'n golygu cryfder nerthol ond hefyd llwyddiant. Gall hefyd olygu 'arwrol'. Mewn ychydig eiriau, down i adnabod Boas fel person llwyddiannus ymhlith ei bobl, yn ddyn cryf ac yn ennyn edmygedd. Person arbennig i fod o'ch plaid mewn argyfwng, ond person hefyd sy'n digwydd perthyn drwy briodas i Ruth. Yn nes ymlaen, gwelwn pa mor allweddol ydy hynny.

O'i gweld yn ei gaeau, mae Boas yn holi ei weithwyr amdani ac yn clywed mai geneth o Moab ydy Ruth a'i bod wedi dod i Fethlehem hefo Naomi a'i bod "wedi bod ar ei thraed o'r bore bach hyd yn awr". Mewn sgwrs hefo Ruth, mae Boas yn ei hannog i beidio â gweithio mewn caeau eraill ond i aros ar ei dir ef a hyd yn oed i yfed "o'r llestri a lanwodd y gweision". Mewn ymateb i syndod Ruth at ei garedigrwydd tuag ati, mae Boas yn cyfeirio at ffyddlondeb Ruth i Naomi, yn gadael ei chartref a dod at bobl ddieithr. Merched Bethlehem, yn siŵr, sydd wedi adrodd am ei ffyddlondeb i Naomi, ac mae hynny'n ateb y cwestiwn a ofynnwyd yr wythnos diwethaf – mai gofal caredig am Naomi oedd yn golygu bod y merched wedi 'cyffroi' o'i gweld yn ôl yn eu plith (1: 19).

Mae Boas yn gorchymyn i'r gweithwyr fod yn ofalus o Ruth, ac mae hynny hefyd yn golygu peidio â manteisio arni. Maent hyd yn oed i dynnu grawn o'r ysgubau ar ei chyfer, gan hwyluso popeth iddi. Mae Ruth yma'n cael ei thrin yn freintiedig, ac mae hynny'n troi'n fendith i Naomi hefyd gyda'r gobaith, o ddod adref, fod y cyfnod 'chwerw' tu ôl iddi erbyn hyn ac y daw ei henw Naomi, 'daioni prydferth', i olygu ei ystyr eto.

**Cwestiynau i'w trafod**:

1. Sut mae Duw wedi trefnu bod gofal dros y tlawd?
2. Ydy Boas yn gwisgo ystyr ei enw hefo anrhydedd?
3. Hyd yn hyn, beth ydym wedi'i ddysgu am berthynas Naomi a Ruth?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 13 Hydref – Law yn Llaw**

I nodi Mis Ymwybyddiaeth Canser y Fron bydd Lisa Gwilym yn rhannu stori ysbrydoledig Anwen Edwards ac yn clywed sut mae grŵp Cymuned Cefnogaeth Canser a chôr menywod Law yn Llaw yn rhoi cysur a chefnogaeth i gleifion eraill. A chawn wledd o ganu mawl o Gapel Mawr Amlwch.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 13 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Anna Jane Evans

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 13 Hydref, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal Lowri Mitton, Yr Wyddgrug




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Sasiwn groesawgar yn Eglwys y Drindod, Llundain



Carwyn Arthur yn arwyddo Beibl y llywydd



Swyddogion hen a newydd Sasiwn y De, (o'r chwith) Emyr Williams, Carwyn Arthur, Richard Brunt a Tony Platt



Miriam Watling yn sôn am ei gwaith yn Llundain

Daeth dros 40 o gynrychiolwyr ac eraill (rhai ar Zoom) i Sasiwn yr Hydref Cymdeithasfa'r De, a gynhaliwyd ar 11 a 12 Medi yng nghapel Cockfosters, Eglwys y Drindod, Llundain.

Roedd cyfle ar y nos Fercher i gael cyfarfod anffurfiol o gymdeithasu rhwng y rhai oedd wedi dod draw o Gymru ac aelodau'r eglwysi Cymraeg yn Llundain. Roedd y gweithgareddau dan ofal ein Llywydd, y Parchedig Richard Brunt, sydd hefyd yn weinidog ar eglwysi Cylch Llundain, a Miriam Watling, ein Galluogwraig Ymestyn Allan ddawnus a chroesawgar. Yn wir, mawr oedd y croeso! Roedd y cyfarfod yn gyfuniad o fwynhau gwledd ysgafn a baratowyd gan gwmni sy'n gysylltiedig â chapel y Boro ac addoli gyda'n gilydd yng nghwmni nifer o bobl ifanc o'r gwahanol eglwysi.

Yn yr Eisteddiad cyntaf ar y dydd Iau, cyfeiriodd y Llywydd eto at y thema o groeso, gan gyfeirio at hysbysfwrdd a welodd y tu allan i Grace Church, Durban, De Affrica, sy'n pwysleisio'r croeso hollgynhwysfawr sydd gan Eglwys Iesu Grist.

Roedd yr holl emynau a ddefnyddiwyd yn ystod y Sasiwn gan emynwyr â chysylltiadau â Llundain, gan ddechrau ag emyn 163 (*Caneuon Ffydd*), 'Cyduned Seion lân' a ysgrifennwyd gan y Parchedig James Hughes (Iago Trichrug) , gweinidog cyntaf Eglwys adnabyddus Jewin yma yn Llundain, eglwys a sefydlwyd 250 mlynedd yn ôl. Darllenwyd Salm 84 gan Mrs Heulwen Reading, Llywydd eglwysi Cylch Llundain.

Wrth gyfarch y Gymdeithasfa fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, cymerodd y Parchedig Aneurin Owen y cyfle i lansio'n swyddogol Apêl Manipur (talaith Gogledd-ddwyrain India). Cyfeiriodd at y sefyllfa ddyrys sy'n bodoli yn Manipur lle mae erledigaeth barhaus ar y llwythau ethnig lleiafrifol ers 15 mis. Mae tir y grwpiau ethnig llai yn cael ei feddiannu, a nifer fawr o gartrefi a thros 400 eglwysi wedi eu llosgi a'r trigolion yn gorfod ffoi i'r gogledd. Yn awr mae angen cyfleoedd iddynt ddod at ei gilydd; mae angen lleddfu effeithiau tlodi a dadleoli. Rhaid hyrwyddo iechyd ac addysgu yn y sefyllfa newydd, ac mae angen Beiblau.

Trafodwyd y sefyllfa ynghylch Eglwys Casllwchwr, capel hanesyddol sydd mor gysylltiedig ag Evan Roberts a Diwygiad 1904/05 sydd angen ei diogelu a'i hatgyweirio. Cytunwyd i symud ymlaen i drafod hyn ymhellach mewn ymgynghoriad â Phwyllgor Hanes y Cyfundeb i awgrymu polisi a strategaeth yn ymwneud ag adeiladau o'r fath sy'n cael eu hystyried yn hanesyddol.

Yn ystod yr Oedfa Gymundeb darllenwyd enwau blaenoriaid a fu farw ers y Sasiwn ddiwethaf gan yr Ysgrifennydd a darllenwyd coffâd am y diweddar Barchedig Iain Hodgins o Gymdeithasfa'r Dwyrain, cyn-lywydd y Gymanfa Gyffredinol.

Traddodwyd anerchiad wrth fwrdd y Cymun gan y Parchedig Evan Morgan, un o blant Eglwys Wood Green, Llundain, sydd bellach yn rhan o Eglwys y Drindod. Rhoddodd Evan sylw i hanes Priscilla ac Acwila, cyd-weithwyr gyda Paul (Actau 18.2); diddorol bod enw Priscilla yn cael ei roi o flaen enw Acwila. Roedd Priscilla yn mentora ac yn calonogi, (i) yn rhoi o'i hamser, (ii) yn rhoi o'i harian ac (iii) yn athrylith ac yn defnyddio'i doniau.

Cafwyd cyfle yn ystod y prynhawn i glywed am waith ein Swyddog Plant ac Ieuenctid a'n Galluogwraig Ymestyn Allan. Mae Miriam gyda ni ers tair blynedd bellach ac yn ei geiriau hi 'yn ceisio tystio am Iesu i'r gymuned mewn ffordd sy'n helpu pobl'.

Mae 35 o deuluoedd wedi mynychu 'Dreigiau Bach' (cylch rhiant a phlentyn a sefydlwyd yn 2011 yng nghapel Clapham Junction) ac yn awr mae 'Dreigiau Bach y Dwyrain' wedi dechrau yng nghapel Leytonstone. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at weithgarwch, yn cynnwys gwasanaethau addoliad cyffrous yn y dyfodol. Hefyd, mae pobl ifanc wedi eu denu yn ôl i'r capel yn Ealing trwy Glwb Emaus, cyfle i gael sgwrs dros baned. Soniodd Miriam hefyd am waith yr ysgolion Sul yn gyffredinol, a'r astudiaeth Feiblaidd yn Jewin.

Byddem yn gwerthfawrogi gweddïau dros y weledigaeth sydd gennym yma yn Llundain: helpu pobl ifanc i ddysgu sut i weddïo a sut i bwyso ar ei gilydd. Y sylfaen yw Iesu Grist ei hun a'r llu o bobl oedd yma o'n blaenau: awn ymlaen fel tîm i Dduw sy'n camu allan mewn ffyrdd newydd, gwahanol.

Gwaith pwysig arall yn ystod cyfarfod y prynhawn oedd trosglwyddo Llywyddiaeth y Gymdeithasfa i'r Parchedig Carwyn Arthur a throsglwyddo'r Ysgrifenyddiaeth i'r Parchedig Emyr Williams.

Diolchodd Richard am y fraint o gael bod yn Llywydd ac am gefnogaeth pawb, yn arbennig Tony Platt fel Ysgrifennydd y Sasiwn a Kathryn Morris fel Trysorydd, a dymunodd bob bendith i Carwyn wrth iddo gymryd yr awenau fel Llywydd. Soniodd Tony hefyd fel roedd y pandemig wedi effeithio ar waith y Sasiwn yn ystod tair blynedd ei ysgrifenyddiaeth, a bu'n rhaid bod yn ystwyth ac yn arbrofol. Diolchodd am bob cymorth ac am y cyfle a'r fraint o gael bod yn rhan o'r tîm.



Trosglwyddo'r llywyddiaeth i Carwyn Arthur

Sasiwn groesawgar yn wir, a sasiwn yn llawn brwdfrydedd i'r dyfodol!

*Tony Platt (Ysg.)*

# ‘Ni adewir yma faen ar faen’ – yr her i Ymneilltuaeth yr 21ain ganrif


Glyn Tudwal Jones, cyn-weinidog Eglwys y Crwys, Caerdydd, yw awdur ysgrif agoriadol rhifyn cyfredol *Y Traethodydd*. Ynddi mae’n trafod yr her genhadol sylweddol sy’n wynebu’r eglwysi a ninnau bron wedi cyrraedd ail chwarter yr unfed ganrif ar hugain. ‘Maen ar faen’ yw ei theitl, gan adleisio geiriau Iesu yn yr efengylau wrth gyfeirio at y deml ysblennydd yn Jerwsalem: ‘Edrych, Athro, y fath feini enfawr a’r fath adeiladau gwych!’ A’i ateb: ‘Yn wir, rwy’n dweud wrthych, ni adewir yma faen ar faen; ni bydd yr un heb ei fwrw i lawr’. Prin y dychmygai neb ohonom, blant yr ugeinfed ganrif, y gallai holl strwythurau Ymneilltuaeth ffyniannus y ganrif honno ddadfeilio mewn amser mor fyr.

Nid galarnadu a wna’r awdur, fodd bynnag, ond dadansoddi sut y digwyddodd hyn, a chynnig ffordd synhwyrol ymlaen. Os dinistriwyd teml Jerusalem wedi dyddiau Iesu, cafwyd ailadeiladu hefyd. Ac fel y sicrhaodd amaethwyr Dyffryn Clwyd ddiogelwch i’w cartrefi trwy godi muriau cadarn yn ôl angen, felly mae modd i Gristnogion Cymru weithredu’n gadarnhaol. ‘Gadael i Grist gael ei ymgnawdoli o hyd ym myd hagr yr unfed ganrif ar hugain: dyna dasg yr eglwys’, meddai. ‘Eilradd yw popeth arall’. Darllenwch yr ysgrif wybodus, gall a hyderus hon.

Cafwyd adolygiad yn rhifyn Gorffennaf o’r *Traethodydd* o gyfrol yr hanesydd John Harding ar feddwl a gwaith Griffith Jones Llanddowror a’i gyfraniad enfawr i fywyd crefyddol a diwylliannol Cymru. Fel llenor creadigol mae’n ymddangos y tro hwn, awdur y stori fer swynol ‘Yr Alarch’. Brodor o Deal yng Nghaint yw John Harding, ac yno mae’n byw. Nid cyfrwng ymchwil academaidd yn unig mo’r Gymraeg iddo, ond fel y dengys y stori hon, mae’n gyfrwng llenydda creadigol yn ogystal. Nid dyma’r stori fer gyntaf o’i eiddo i ymddangos ar ein tudalennau, a hyfryd yw cael ei groesawu ’nôl.

Gerald Morgan, yr hanesydd diwyd o Aberystwyth, sydd nesaf, yn rhannu ei ymchwil i fywyd, gwaith a chyfraniad dau o offeiriaid anghofiedig Ceredigion, Lewis Evans o Lanfihangel Genau’r-glyn, a Lewis Evans, ei fab. Trwy ymchwil orchestol y ddiweddar Mari Ellis a diwydrwydd Meg, ei merch, yn sicrhau bod gwaith ei mam yn gweld golau dydd, daethom i wybod mwy nag erioed o’r blaen am lafur Gwallter Mechain, Ifor Ceri a gweddill ‘yr hen bersoniaid llengar’. Dyma ddau arall i ymuno â nhw. Ffrwyth clasuriaeth ysgol enwog Ystrad Meurig oeddent, a Lewis Evans y mab yn fyfyriwr yng Ngholeg Oriel, Rhydychen, pan oedd John Henry Newman, tiwtor y coleg hwnnw, yn creu chwyldro Catholig yn Eglwys Loegr. Dychwelyd i Geredigion a wnaeth, i daenu’r ysbryd catholig ymhlith ei blwyfolion cefn gwlad. Difyr yw cael gwybod am gyfraniad y ddau.

Hamddena, ymhlith ieuenctid yn arbennig, rhwng y ddau Ryfel Byd yw thema astudiaeth gyfoethog Llion Wigley, a hon sy’n cael sylw ar glawr y rhifyn. Olrhain newidiadau cymdeithasol yw’r nod, wrth i’r awdur ddadorchuddio lliaws o ffeithiau gan sylwebyddion cyfoes yn dangos fod chwyldro amlwg yn digwydd o’u cwmpas, a hwythau heb fod yn siŵr sut orau i ymgodymu ag ef. Os yw plant canol yr ugeinfed ganrif yn anesmwyth yn y Gymru newydd, felly yr oedd pethau yn nauddegau a thridegau’r ganrif ddiwethaf. Astudiaeth hynod yw hon, a bydd yr ail ran i’w gweld yn y rhifyn nesaf.




Derec Llwyd Morgan a Mary Burdett-Jones, dau o ffyddloniaid y cylchgrawn, yw’n beirdd y tro hwn. Mae’r Dr Hefin Jones yn adolygu cyfrol Carwyn Graves, *Tir: the Story of the Welsh Landscape*, Richard Owen yn rhoi sylw i rifynnau diweddar yng nghyfres *Yr Hen Lyfrau Bach*, a’r golygydd yn tafoli *Gair Duw ar Lafar Gwlad*, cyfrol olaf y diweddar, ysywaeth, Dewi Arwel Hughes. Rhwng popeth, felly, dyma rifyn llawn arall gyda rhywbeth, gobeithio, at ddant pawb.

Anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* unwaith eto nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i’w brynu a’i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw’r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru